O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 687 (Cy.102)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A5 a'r A55 (Cyffordd 11 (Cylchfan Llys y Gwynt) i Gylchfan yr A4244, Gwynedd) (Cyfyngiadau Traffig dros Dro a Gwaharddiad) 2011

Gwnaed *8 Mawrth 2011*

Yn dod i rym *11 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain i Gaergybi (yr A5) a Chefnffordd Caer i Fangor (yr A55) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn**(2)**.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Mawrth 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A5 a'r A55 (Cyffordd 11 (Cylchfan Llys y Gwynt) i Gylchfan yr A4244, Gwynedd) (Cyfyngiadau Traffig dros Dro a Gwaharddiad) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys, neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period"*) yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 19:00 o'r gloch ar 11 Mawrth 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.